# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Twristiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Dydd Mercher 18 Mai 2022 |
| **Lleoliad:** | Senedd a Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Sam Rowlands (SR) | AS Gogledd Cymru |
| Samuel Kurtz (SK) | AS Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Tom Giffard (TG) | AS Gorllewin De Cymru |
| Janet Finch-Saunders (JFS) | AS Aberconwy |
| Vaughan Gething (VG) | Gweinidog yr Economi |
| Zak Weaver (ZW) | Staff Cymorth Sam Rowlands AS |
| Harry Saville (HS) | Staff Cymorth Sam Rowlands AS |
| Rhys Thomas (RT) | Staff Cymorth Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| Mike Bryan (MB) | Staff Cymorth Sam Kurtz AS |
| Jena Quilter (JQ) | Staff Cymorth Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| Jason Thomas (JTWG) | Swyddog Llywodraeth Cymru yn cynghori Gweinidog yr Economi |
| Steffan Roberts (SRWG) | Swyddog Llywodraeth Cymru yn cynghori Gweinidog yr Economi |
| Suzy Davies (SD) | Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Greason-Walker (AGW) | Eiriolwr Polisi, Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Rhys Taylor (RTJD) | Staff Cymorth Jane Dodds AS |
| Shoko Doherty (SDCEA) | Prif Swyddog Gweithredol Celtic English Academy |
| Dan Rose (DR) | Staff Cymorth Carolyn Thomas AS |
| Helen Charlesworth (HC) | Rheolwr Polisi a Chyfathrebu, Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain Cyf |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Croeso a chyflwyniadau:

- Croesawodd SR bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r Gweinidog am fod yn bresennol.
- Ymddiheurodd VG am beidio â dod i'r cyfarfod ym mis Mawrth, ond dywedodd ei fod wedi cael adborth gan ei swyddogion.

Cynnydd yr ymdrechion i ymdrin â diffyg tai fforddiadwy tra'n cyfyngu ar yr effaith economaidd a'r effaith ar ddelwedd y diwydiant twristiaeth yng Nghymru (parhau â'r drafodaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys ymgynghoriadau diweddaraf Llywodraeth Cymru).

- Dywedodd VG fod y sector bellach yn teimlo mor optimistaidd ag yr oedd cyn y pandemig, a nododd ei fod yn edrych ymlaen at ymweld â chyrchfannau twristiaeth i ddathlu Wythnos Twristiaeth Cymru.
- Tynnodd VG sylw at ddigwyddiad World Wrestling Entertainment fel llwyfan pwysig i arddangos Cymru i ymwelwyr rhyngwladol ac i farchnad yr UDA.
- Dywedodd VG fod Llywodraeth Cymru yn dal i ymdrin â'r materion sy'n wynebu'r diwydiant, fel yr effaith ar nifer y tai sydd ar gael, ond ychwanegodd ei fod yn cydnabod bod twristiaeth yn gyflogwr pwysig a'i fod am weithio gyda chymunedau i sicrhau llwyddiant y diwydiant.
- Amlinellodd VG y bydd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn edrych ar y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad ar ardoll dwristiaeth. Roedd VG yn gwerthfawrogi nad oedd yr holl randdeiliad o blaid ardoll o'r fath, ond dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod y cydbwysedd cywir yn cael ei daro.
- Diolchodd SR i'r Gweinidog am ei ymateb a diolchodd i'w swyddogion am eu presenoldeb yn y cyfarfod blaenorol.
- Dywedodd SD ei bod yn falch o fod yn bresennol, ac ychwanegodd fod pawb am weld diwydiant iach. Nododd SD fod yna resymau i fod yn optimistaidd, ond bod angen ystyried yr argyfwng costau byw yn strategaeth dwristiaeth Llywodraeth Cymru.
- Gofynnodd SD i VG sut y gall fynd ati i fynegi pryderon y sector twristiaeth i Lywodraeth Cymru, a sut y bydd yn cynrychioli buddiannau'r sector, o gofio bod yr ardoll dwristiaeth yn gymaint o flaenoriaeth.

- Atebodd VG ei fod yn gweithio gyda'r sector i'w wneud yn ddeniadol, a dywedodd fod pryderon gwirioneddol wedi'u mynegi ynghylch yr argyfwng costau byw, gan gynnwys pobl yng nghanol Prydain.
- Dywedodd VG fod Llywodraeth Cymru yn ystyried barn y diwydiant twristiaeth, a dyna pam eu bod wrthi'n trafod yr ardoll dwristiaeth ar ddechrau tymor y Senedd. Roedd VG yn cydnabod nad oedd Cynghrair Twristiaeth Cymru yn cefnogi ardoll o'r fath, a bod sgyrsiau ymarferol i'w cael yn y maes hwn.
- Diolchodd SD i VG a dywedodd fod Cynghrair Twristiaeth Cymru yn cynrychioli busnesau micro, bach a chanolig, a gofynnodd sut y bydd y busnesau hyn yn cael eu cynrychioli.
- Nododd VG fod Llywodraeth Cymru yn deall yn iawn mai busnesau bach a chanolig sy'n ffurfio llawer o'r sector.
- Diolchodd AGW i Lywodraeth Cymru am gefnogi Wythnos Twristiaeth Cymru. Roedd AGW newydd ddod o gyfarfod y Fforwm Carafanau a Gwersylla, lle'r oedd pryderon mawr wedi'u mynegi ynghylch yr argyfwng costau byw. Pwysleisiodd AGW fod angen trafod yr ardoll dwristiaeth, cofrestriadau a'r newidiadau i lety gwyliau ar fyrder.
- Dywedodd AGW fod yn rhaid bod yn ofalus ac yn ymwybodol bod ymwelwyr a'r cyhoedd yng Nghymru yn sylwi ar agwedd negyddol tuag at ymwelwyr.
- Amlinellodd AGW fod 10 y cant o weithlu Cymru yn ddibynnol ar dwristiaeth a bod angen ystyried hyn yn fwy manwl.
- O ran yr ardoll dwristiaeth, dywedodd VG ei fod yn awyddus i gyflwyno'r gyfundrefn sy'n gweithio orau. Ychwanegodd y bydd yn siarad â'r diwydiant, gan nodi ei fod yn awyddus i gael y neges yn gywir wrth groesawu pobl i Gymru a hyrwyddo'r hyn sydd gennym i'w gynnig. Hefyd, cytunodd VG fod costau byw bellach ar feddwl y rhan fwyaf o bobl.
- Diolchodd SR i'r Gweinidog a'i swyddogion am eu presenoldeb.

<u>Trafodaeth bellach a'r camau nesaf ar gyfer y sector twristiaeth</u>

- Amlinellodd SK fod yna broblem enfawr yn wynebu ei etholwyr o ran nifer y nosweithiau a hysbysebir a nifer y nosweithiau y caiff llety ei osod, sy'n achosi trafferthion i'r diwydiant hunanarlwyo.
- Dywedodd SD fod y Gweinidog wedi nodi'n glir ei fod yn synhwyro bod materion cynllunio yn cael eu trafod mewn modd cadarnhaol.
- Amlinellodd SR fod y mater hwn wedi'i bwysleisio yn y drafodaeth â swyddogion y Gweinidog yn ystod y cyfarfod diwethaf.
- Ym marn SD, roedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn gwrando ar y sector yn dilyn y cyfarfod hwn, a'u bod yn ystyried sylwadau'r sector hefyd.
- Dywedodd SDCEA nad oedd digon yn cael ei wneud i ddenu ymwelwyr rhyngwladol, gan nodi y byddai denu mwy o ymwelwyr o'r fath yn rhoi hwb i'r sector.

- Cytunodd SR â SDCEA a dywedodd y gallai hyn fod yn eitem ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
- Tynnodd SDCEA sylw at lwyddiant Iwerddon wrth ddenu ymwelwyr rhyngwladol ar hyn o bryd.
- Dywedodd TG fod y ffocws hyd yn hyn wedi bod ar faterion cyffredinol, ac y gallai eitemau yn y dyfodol ganolbwyntio ar ddigwyddiadau mawr a sut y gallwn farchnata'r digwyddiadau sy'n dod i Gymru i sicrhau ein bod yn manteisio arnynt gymaint â phosibl.
- Nododd SR fod Gogledd Iwerddon yn elwa ar gynyrchiadau teledu a ffilm.
- Mynegodd SK ei rwystredigaeth bod digwyddiadau mawr yn dueddol o fod wedi'u canolbwyntio ar Gaerdydd.
- Dywedodd SD fod Croeso Cymru yn marchnata ardaloedd y tu hwnt i Gaerdydd, ond nid oedd yr ymdrechion hyn yn dueddol o gynnwys digwyddiadau mawr.
- Dywedodd SR fod rhywfaint o waith i'r grŵp trawsbleidiol ei wneud ar gyllid ar ôl yr ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a chodi'r gwastad i ddenu mwy o arian.
- Ymddiheurodd SR ei bod yn ymddangos nad oedd rhai aelodau o'r diwydiant yn gallu ymuno â'r cyfarfod oherwydd materion technegol, ac ychwanegodd y byddai'r grŵp yn dod ynghyd eto yn nigwyddiad Wythnos Twristiaeth Cymru yn y Senedd ac yn trafod cynnal cyfarfod arall yn y dyfodol agos.
- Nododd JFS ei bod wedi cynnal cyfarfod â Thrafnidiaeth Cymru yn ddiweddar i bwysleisio'r angen am wasanaeth trên mwy effeithiol ac effeithlon i roi hwb i'r sector.
- Wrth gloi, gofynnodd SD i'r aelodau gadw llygad ar unrhyw gyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â'r sector twristiaeth yn ystod yr haf.

Casgliadau a chamau gweithredu:

- I gloi ac i dynnu sylw at y pwyntiau gweithredu, nodwyd bod digwyddiad Wythnos Twristiaeth Cymru yn cael ei gynnal yn y Senedd gyda'r hwyr a bod y grŵp trawsbleidiol yn anelu at gynnal cyfarfod arall yn y dyfodol agos.
- Diolchodd SD i bawb a oedd yn bresennol ac a gyfrannodd.

Eitemau posibl i'w nodi ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol:

- Denu ymwelwyr rhyngwladol.
- Twristiaeth sy'n gysylltiedig â digwyddiadau mawr.
- Cysylltiadau trafnidiaeth i wella'r sector.